Cofnodion cryno - Pwyllgor y Llywydd

Lleoliad:

Hybrid - **Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 7 Tachwedd 2022

Amser: 09.03 - 10.28

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13116

Hybrid

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	David Rees AS (Cadeirydd) Janet Finch-Saunders AS Peredur Owen Griffiths AS Joyce Watson AS Llyr Gruffydd AS
Tystion:	Dame Elan Closs Stephens CBE, Comisiwn Etholiadol Shaun McNally, Comisiwn Etholiadol Rhydian Thomas, Comisiwn Etholiadol Kieran Rix, Comisiwn Etholiadol
Staff y Pwyllgor:	Meriel Singleton (Clerc) Bethan Garwood (Dirprwy Glerc) Craig Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol) Christian Tipples (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhys ap Owen; dirprwyodd Llyr Gruffydd ar ei ran.

1.3 Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

2 Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023/24

2.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am gyflwyno eu hamcangyfrif ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24 ac amcangyfrif atodol 2022-23.

2.2 Holodd y Pwyllgor gynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol yn fanwl ar eu hamcangyfrif ariannol ar gyfer 2023-24 ac amcangyfrif atodol 2022-23.

2.3 Nododd y Pwyllgor lythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar y cynllun peilot etholiadol.

2.4 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar yr amcangyfrif fel rhan o'r ymgynghoriad sydd ei angen o dan baragraff 16A(8)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Cytunwyd ar y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod o dan Reol Sefydlog 17.42(vi).

4 Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023/24 Trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.